
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Talacharn, Sir Gaerfyrddin

## Cewch eich ysbrydoli gan yr amglychoedd a ysgogodd Dylan Thomas i ysgrifennu rhai o'i ddarnau enwocaf

*"Mae yna rywbeth arbennig am fynd am dro o gwmpas Talacharn, mae ganddo gyfoeth o draddodiadau lliwgar gan gynnwys taith gerdded Comin Talacharn. Dychmygwch Dylan Thomas yn cerdded ar hyd y morlin yn chwilo am ysbrydoliaeth!"*

**NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Maes parcio Talacharn (ger y castell)

### Pellter:

2 milltir/4km.

### Ar hyd y ffordd...

Yn enwog am ei gysylltiad â'r awdur Dylan Thomas, mae pentref morol a hynafol Talacharn yn sefyll yn uniongyrchol ar Lwybr Arfordir Cymru. Mae'n fan cychwyn perffaith ar gyfer teithiau cerdded byr ar hyd y llwybr i'r ddau gyfeiriad, naill ai'n dychwelyd y ffordd y daethoch neu'n gwneud eich ffordd yn ôl i'ch man cychwyn drwy nifer o lwybrau mewndirol.

Yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru i'r gogledd-ddwyrain o ganol y pentref, byddwch yn mynd heibio Castell Talacharn, caer ganoloesol a newidiwyd yn blasty Tuduraidd sy'n sefyll dros yr aber.

Ewch yn eich blaen i'r tŷ cwch lle roedd Dylan Thomas yn byw ar ei 'heron-priested shore' annwyl o 1949 i 1953, sydd bellach yn gofeb i'r awdur gwych. Gallwch gael cipolwg y tu mewn i'r sied lle roedd Thomas yn ysgrifennu, sydd wedi'i chadw fel pe bai newydd adael y lle dim ond am eiliad, edrych ar ystafelloedd cyfnod y tŷ cwch sy'n llawn o eitemau cofiadwy, neu gael paned yn yr ystafelloedd te.

Ymhellach y tu allan i'r pentref fe welwch y man lle'r oedd y fferi unwaith yn cysylltu Talacharn gydag ochr arall yr aber, gydag olion sarn yn weladwy ar lanw isel.

Dilynwch y llwybr i'r de o'r pentref a byddwch yn cerdded y llwybr anfarwol yng ngherdd 'Poem in October' Dylan. Byddwch yn mynd heibio Cors Talacharn, wedi'i chysgodi rhag y môr gan dwyni tonnog.

Ar gyfer golygfeydd arfordirol, dringwch Fryn Syr John, yna ewch ymlaen i'r chwareli yng Nghoygan, lle mae bwyeill Neanderthalaidd sy'n dyddio'n ôl mwy na 30,000 o flynyddoedd wedi cael eu darganfod, ynghyd ag esgyrn hiena a rhinoseros gwlanog hynafol.

### Angen gwybod:

Mae toiledau cyhoeddus a maes parcio yng nghanol y pentref, yn agos at nifer o dafarndai, siopau a chaffis.